COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB. DYDD IAU, 11 IONAWR, 2024 AM 10:00

Yn bresennol

Y Cynghorydd RM Granville – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Clarke | RJ Collins | H Griffiths | J Llewellyn-Hopkins |
| J E Pratt | | | |

Yn bresennol yn rhithiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Easterbrook | S J Griffiths | M L Hughes | D M Hughes |
| M R John | MJ Kearn | W J Kendall | A Wathan |
| R Williams | | | |

Ymddiheuriadau

A R Berrow, C L C Davies a D T Harrison

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu |
| Gillian Dawson | Cyfreithiwr - Cynllunio |
| Craig Flower | Arweinydd Tîm Cefnogi Cynllunio |
| Robert Morgan | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Datblygu Grŵp |
| Philip Thomas | Prif Swyddog Cynllunio |
| Leigh Tuck | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu |
| Michael Pitman | Technegydd Cabinet a Phwyllgor |
| Oscar Roberts | Swyddog Cabinet a Phwyllgor (Prentis) |

## 180. Datganiadau o fudd

| | |
|---|---|
| Penderfyniadau a wnaed | Datganodd y Cynghorydd R Collins fudd personol yn eitem 8 ar yr Agenda, fel Aelod o Gyngor Tref Maesteg nid yw'n cymryd unrhyw ran mewn materion cynllunio. |
| Dyddiad y gwaed y penderfyniad | 11 Ionawr, 2024 |

## 181. Ymweliadau Safle

| | |
|---|---|
| Penderfyniadau a wnaed | DATRYSIAD: Cytunwyd ar ddydd Mercher 21/02/2024 fel dyddiad ar gyfer archwiliadau safle arfaethedig sy'n codi yn y cyfarfod, neu'n cael eu nodi cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor gan y Cadeirydd. |
| Dyddiad y gwaed y penderfyniad | 11 Ionawr, 2024 |

## 182. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniadau a wnaed | DATRYSIAD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu dyddiedig 30 Tachwedd, 2023, fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad y gwaed y penderfyniad | 11 Ionawr, 2024 |

## 183. Siaradwyr Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Penderfyniadau a wnaed | Doedd dim siaradwyr cyhoeddus yn y cyfarfod heddiw. |
| Dyddiad y gwaed y penderfyniad | 11 Ionawr, 2024 |

| | |
|---|---|
| | |

**184. Taflen Ddiwygiad**

| | |
|---|---|
| Penderfyniadau a wnaed | DATRYSIAD: Mae'r Cadeirydd i dderbyn Taflen Ddiwygio'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem frys, yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefn y Cyngor, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried y diwygiadau angenrheidiol i Adroddiad y Pwyllgor, er mwyn cymryd i ystyriaeth y sylwadau a diwygiadau y mae angen eu cynnwys. |
| Dyddiad y gwaed y penderfyniad | 11 Ionawr, 2024 |

185. **Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu**

| | |
|---|---|
| Penderfyniadau a wnaed | DATRYSIAD: Nododd yr Aelodau'r adroddiad ar Ganllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. |
| Dyddiad y gwaed y penderfyniad | 11 Ionawr, 2024 |

186. **186. P/13/808/OUT Tir Oddi ar Oakwood Drive, Maesteg, CF34 9TS**

| | |
|---|---|
| Penderfyniadau a wnaed | DATRYSIAD: (1) O ystyried y cais canlynol, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ymrwymo i Gytundeb Cyfreithiol Adran 106:<br><br>(i) Darparu cyfraniad ariannol o £8,000 ar gyfer gorchymyn traffig i gadarnhau na all cerbydau barcio na llwytho/dadlwytho ar Oakwood Drive, na'r ffordd sy'n cysylltu Oakwood Drive a Bethania Street, er mwyn sicrhau bod y strydoedd yn parhau i lifo'n rhwydd.<br>(ii) Darparu lleiafswm o 15% o'r unedau fel tai fforddiadwy, gyda deiliadaeth fforddiadwy a lleoliad o fewn y safle i'w cytuno gan y Cyngor.<br>(iii) Darparu a chynnal mannau hamdden awyr agored yn unol â Pholisi COM11 Cynllun Datblygu Lleol |

| | |
|---|---|
| | Pen-y-bont ar Ogwr (2013) a Nodyn Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol 05 – Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored a Datblygiad Tai Newydd (2022) cyn meddiannu'r elfen breswyl o'r cynllun am y tro cyntaf.<br><br><u>Cynnig:</u><br><br>Datblygiad Defnydd Cymysg: Preswyl (201 Uned), Canolbwynt Cyflogaeth/Menter, Manwerthu, Man Agored Cyhoeddus, Mynediad, Gweithrediadau Peirianneg a Gwaith Cysylltiedig<br><br>(2) Rhoi pwerau dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau i gyhoeddi hysbysiad o benderfyniad yn rhoi caniatâd mewn perthynas â'r cynnig hwn unwaith y bydd yr Ymgeisydd wedi ymrwymo i'r Cytundeb Adran 106 uchod, a/neu gytundeb cyfreithiol priodol arall. Pwrpas hyn yw sicrhau'r gofynion cynllunio a restrir o dan (A) uchod yn amodol a'r amodau amlinellol safonol, a'r amodau ychwanegol a gynhwysir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau:<br><br>Yn amodol ar gynnwys yr Amod ychwanegol a ganlyn i'r caniatâd a roddir:-<br><br>35. Er gwaethaf y cynlluniau a gyflwynwyd, ni chaniateir dechrau unrhyw ddatblygiad ar y safle ar wahân i waith adfer nes bod model hydrolig diwygiedig wedi'i ddatblygu i ddiweddaru Asesiad Canlyniad Llifogydd unrhyw waith lliniaru llifogydd a gyflwynir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a'i fod wedi ei gytuno'n ysgrifenedig. Mae gweithredu'r cynllun yn unol â'r manylion y cytunwyd arnynt cyn dod â datblygiad i ddefnydd buddiol.<br><br>Rheswm: Er mwyn sicrhau bod perygl llifogydd yn cael ei nodi'n glir a bod pawb yn cael eu diogelu rhag llifogydd. |
| Dyddiad y gwaed y penderfyniad | 11 Ionawr, 2024 |

## 187. Apeliadau

| | |
|---|---|
| Penderfyniadau a wnaed | DATRYSIAD: (1) Nodi'r Apeliadau a dderbyniwyd ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor ar yr eitem hon.<br><br>(2) Penderfyniad yr Arolygydd a Benodwyd gan Weinidogion Cymru yw y dylid Caniatáu'r Apêl yn rhannol/Gwrthod yn rhannol, yn amodol ar Amodau (Atodiad A i'r adroddiad y cyfeirir ato)<br><br>Rhif yr Apêl. CAS-02978-D8C2G7 (1995) - Estyniad unllawr ar yr ochr/cefn a thalcen, Trosi Llofft Dormer : 11 Heol y Foelas, Pen-y-bont ar Ogwr. |
| Dyddiad y gwaed y penderfyniad | 11 Ionawr, 2024 |

## 188. Papur ymchwil Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru: “Building Capacity through Collaboration and Change” Tachwedd, 2023.

| | |
|---|---|
| Penderfyniadau a wnaed | Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu adroddiad i roi gwybodaeth i'r Aelodau ar yr uchod. Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy'r dolenni a ddangosir yng nghorff adroddiad y Swyddogion.<br><br>Dywedodd am brosiect ymchwil diweddar a gynhaliwyd gan yr RTPI, sef y corff llywodraethu proffesiynol ar gyfer Cynllunwyr Tref, sydd hefyd yn cynrychioli'r proffesiwn cynllunio.<br><br>Ffocws gwaith yr RTPI yn y blynyddoedd diwethaf oedd edrych ar adnoddau ar gyfer timau cynllunio ledled Cymru. Maent wedi cyhoeddi papur ymchwil sydd yn canolbwyntio ar yr Agenda Gynllunio yng Nghymru.<br><br>Mae’r papur ymchwil hefyd yn edrych ar unrhyw gyfleoedd a all fod i gydweithio o ran prosesu gwaith cynllunio<br><br>Edrychodd y papur ymhellach ar yr hyn y gellid ei wneud i wella'r sefyllfa bresennol. Cyfeiriodd y Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu yr Aelodau at baragraff 3 o adroddiad y Cyfarwyddwr |

| | |
|---|---|
| | Corfforaethol - Cymunedau, a oedd yn rhestru rhai o ganfyddiadau allweddol yr adroddiad ymchwil, yn ogystal â chanfod atebion i wella'r cyfyngiadau adnoddau sydd wedi'u gosod ar yr amrywiol gyrff cynllunio sy'n rhan o'r proffesiwn, o fewn llywodraeth leol a'r sector preifat.<br><br>Edrych ar ffyrdd o ddatblygu a chyflwyno arferion da er mwyn sicrhau ceisiadau cynllunio o safon, ac yn ei dro, mae gwneud penderfyniadau cywir ar y rhain yn bwysig iawn wrth symud ymlaen. Byddai hyn yn helpu datblygwyr safleoedd a thirfeddianwyr i gyflwyno safleoedd o safon a fyddai wedyn yn cynorthwyo i lunio'r Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>Fel rhan o'r broses gyffredinol, mae'n bwysig sicrhau bod gwybodaeth a data cynllunio ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd a chyrff allweddol eraill, drwy ddatblygu systemau TGCh gwell a gwybodaeth ar wefan y Cyngor, ac ati. Pwysleisiodd Y Rheolwr Grŵp – Cynllunio a Datblygu bwysigrwydd gwasanaeth cyngor cyn ymgeisio i'r Awdurdod. Ychwanegodd ymhellach fod y Cyngor hefyd yn edrych ar gyflwyno Cytundebau Perfformiad Cynllunio gyda datblygwyr safleoedd.<br><br><u>DATRYSIAD:</u> Pwyllgor wedi nodi'r adroddiad. |
| Dyddiad y gwaed y penderfyniad | 11 Ionawr, 2024 |

**189. Log Hyfforddiant**

| | |
|---|---|
| Penderfyniadau a wnaed | <u>DATRYSIAD:</u> Nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau sy'n rhestru Sesiynau Hyfforddiant sydd i ddod i Aelodau ym meysydd allweddol Cynllunio a Rheoli Datblygu.. |
| Dyddiad y gwaed y penderfyniad | 11 Ionawr, 2024 |

**190. Eitemau brys**

| | |
|---|---|
| Penderfyniadau a wnaed | Nid oedd unrhyw eitemau brys. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad y gwaed y penderfyniad | 11 Ionawr, 2024 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd yn y cyfarfod ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon (i'w fewnosod ar ôl cyfieithu)